Mawrth 2016 Rhifyn 133

# NewsLine

CAERPHILLY COUNTY BOROUGH COUNCIL
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CAERFFILI
www.caerffili.gov.uk



Cynlluniau Bras ar gyfer Ysgol Gynradd newydd
Gweler tud 6 am fwy o wybodaeth

# Cynnydd Treth y Cyngor isaf yng Nghymru

**Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi cytuno ar y cynnydd Treth y Cyngor isaf yng Nghymru a bydd y penderfyniad yn cael ei groesawu gan drigolion ar draws yr ardal.**

Gweler tudalen 2 am fwy o wybodaeth am y gyllideb 2016/17

Cymeradwywyd y penderfyniad i gyfyngu'r cynydd i 1% (yn hytrach na'r 3.9% a ragwelwyd yn wreiddiol) mewn cyfarfod y Cyngor Llawn ar ddiwedd mis Chwefror pan gafodd cyllideb yr awdurdod ar gyfer 2016/17 ei chytuno.


Mae Arweinydd y Cyngor wedi addo y bydd y cyngor yn parhau i weithio yn galed i amddiffyn gwasanaethau, amddiffyn staff ac amddiffyn y bobl sy'n agored i niwed yn y gymuned. "Mae hon yn gyllideb deg, sydd wedi cael ei hystyried yn ofalus sydd yn rhoi'r bobl leol yn gyntaf ac yn amddiffyn gwasanaethau rheng flaen.

"Mae Caerffili yn llywio ei ffordd drwy'r cyfnod ariannol anodd diolch i'n hymagwedd strategol at reoli cyllideb a chefnogaeth gweithlu ymroddedig sydd i gyd yn tynnu ynghyd i wneud arbedion a darparu gwasanaethau o ansawdd."




"Rydym hefyd yn falch o fod mewn sefyllfa i gynnig y cynnydd isaf i dreth y cyngor yng Nghymru. Mae ein cynnydd arfaethedig o 1% yn cyfateb i gynnydd wythnosol o ddim ond 19c ar gyfer eiddo Band D. Rydym yn ymwybodol fod pobl yn ei chael yn anodd ar hyn o bryd ac rydym wedi ymateb yn unol â hynny," ychwanegodd.

Mae arbedion o £11.1million wedi eu nodi o fewn y gyllideb ac, o'r rhain, ni fyddai dros £8.7miliwn yn cael effaith ar y gwasanaethau rheng flaen o gwbl, a £1.9 miliwn yw'r effaith o arbedion ar gyfer y flwyddyn gyfan a wnaed yn 2015/16. Mae'r arbedion hyn wedi eu cyflawni drwy wneud toriadau i wasanaethau 'ystafell gefn' a thrwy reoli swyddi gwag ar draws y sefydliad.



**Cyng Keith Reynolds**
Arweinydd y Cyngor

# Amddiffyn gwasanaethau, swyddi a phobl agored i niwed

**Dyma'r addewid a wnaeth Arweinydd y Cyngor wrth i'r cyngor cytuno ei gyllideb ar gyfer 2016/17**




**Cyng Keith Reynolds**
Arweinydd y Cyngor

Mae cynghorau ledled Cymru yn wynebu penderfyniadau anodd iawn o ganlyniad i'r hinsawdd ariannol barhaus, ond mae cyngor Caerffili wedi cytuno ar gyllideb deg, sydd wedi cael ei hystyried yn ofalus sydd yn rhoi'r bobl leol yn gyntaf ac yn amddiffyn gwasanaethau rheng flaen. Roedd y setliadau dros dro Llywodraeth Leol, a gyhoeddwyd ar ddiwedd y flwyddyn ddiwethaf, yn well na'r disgwyl gyda Chaerffili yn derbyn gostyngiad o 0.9% i'w gyllid ar gyfer y flwyddyn nesaf.

Erbyn hyn, ein gofyniad arbedion diwygiedig ar gyfer y 3 blynedd nesaf yw £24.5 miliwn, yn lle'r £35.2 miliwn a rhagwelwyd ym mis Hydref y llynedd. Mae hyn yn golygu bod y pwysau wedi gostwng ychydig ac mae gennym bellach fwy o amser i gyflawni ein harbedion a gynlluniwyd.

Mae arbedion o **£11.1 miliwn** wedi eu nodi o fewn y gyllideb ac, o'r rhain, ni fyddai dros **£8.7 miliwn yn cael effaith ar y gwasanaethau rheng flaen o gwbl**, ac £1.9 miliwn yw'r effaith blwyddyn gyfan o arbedion a wnaed yn 2015/16. Mae'r arbedion hyn wedi eu cyflawni drwy wneud toriadau i wasanaethau 'ystafell gefn' a thrwy reoli swyddi gwag ar draws y sefydliad.




## Mae'r elfennau allweddol ar gyfer cyllideb 2016/17 fel a ganlyn:

- **Rydym wedi cytuno ar gynnydd o 1% yn Nhreth y Cyngor.**
- **Ni fydd unrhyw gynnydd cyffredinol mewn ffioedd a thaliadau.**
- **Bydd £1.9 miliwn y flwyddyn yn ychwanegol yn cael ei roi i ysgolion.**
- **Mae £2.5 miliwn yn ychwanegol wedi cael ei roi i wasanaethau cymdeithasol.**
- **Bydd cyllid un-tro o £1.6 miliwn yn cael ei neilltuo ar gyfer Rheoli Gwastraff.**
- **Bydd cyllid un-tro o £215,000 ar gyfer mentrau Rheoli Carbon 'gwyrdd'.**
- **Bydd arbedion o £8.7 miliwn yn cael eu darparu ac ni fyddant yn cael effaith ar y cyhoedd.**

Cynhaliwyd proses ymgynghori 12 wythnos bwysig ar ddiwedd y flwyddyn ddiwethaf pan ofynnodd y cyngor i bobl ar draws yr ardal am eu barn ynghylch cynigion y gyllideb. Mae'r adborth hwn wedi bod yn allweddol wrth lywio'r broses pennu cyllideb.



Dywedodd y Cyng. Keith Reynolds. "Byddwn yn hoffi diolch i bawb a wnaeth gymryd rhan i ddweud eu dweud am y mater pwysig hwn. Rydym yn credu'n gryf yng ngwerth ymgynghori effeithiol ac roedd yn gadarnhaol gweld yr ymgysylltiad eang a ddigwyddodd ledled y fwrdeistref sirol i helpu i lunio ein cynlluniau cyllideb."

"Nid ydym ar dir diogel eto gan fod arbedion sylweddol o hyd i'w canfod dros yr ychydig flynyddoedd nesaf, ond rydym yn gwneud ein gorau i gyfyngu'r effaith ar ein trigolion."

**Gellir dod o hyd i fanylion llawn y cynigion cyllideb 16/17 ar www.caerffili.gov.uk**

**Eich Gwybodaeth Treth y Cyngor:** **Mae'r ffigurau isod yn dangos faint yn ychwanegol y byddwch yn talu bob wythnos gan gymryd i ystyriaeth y cynnydd o 1% i Dreth y Cyngor. Bydd manylion llawn eich costau unigol yn cael eu cynnwys yn eich dogfennaeth Treth y Cyngor flynyddol.**

**CYNNYDD Wythnosol**

| A | B | C | D | E | F | G | H | I |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 13c | 15c | 17c | 19c | 23c | 28c | 32c | 38c | 45c |

# Goleuadau stryd newydd - atebion i'ch cwestiynau...

**Bydd trigolion wedi sylwi fod math newydd o oleuadau stryd wedi cael ei gyflwyno mewn rhai ardaloedd.**

**Mae'r goleuadau newydd yn fwy effeithlon na goleuadau stryd traddodiadol a bydd yn helpu lleihau costau ynni, ond mae rhai cwestiynau a phryderon wedi codi am y newid. Gobeithio y bydd y wybodaeth isod yn helpu mynd i'r afael ag unrhyw ymholiadau sydd efallai gan drigolion.**

## Pam gwneud y newidiadau hyn?

Yn 2008, gofynnwyd i'r cyngor gan Lywodraeth Cymru i wneud ymrwymiad i leihau ei allyriadau carbon gan 45% erbyn Mawrth 2019. Mae cynnydd hefyd wedi bod mewn goleuadau effeithlon o ran ynni, yn ogystal â gofyniad i wneud arbedion ariannol oherwydd pwysau cyllid parhaol sy'n wynebu cynghorau lleol.

## Rhy ddisglair v rhy wan

Mae canfyddiadau gwahanol gan drigolion ar a yw'r goleuadau newydd yn fwy disglair neu'n wannach na'r hen rhai. Fodd bynnag, mae faint o olau a oleuir fel arfer yr un peth a lampau newydd a'r golau a oleuir gan lampau sodiwm hŷn.

## Beth am oleuo fy nghartref a gardd?

Mae goleuadau stryd effeithlon wedi eu dylunio i nid yn unig oleuo golau lle mae angen hynny ac ni ddylid dibynnu arno i oleuo cartrefi a gerddi. I ddweud y gwir, mae 'golau gwasgaredig' o bileri golau hen yn aml yn cael eu gweld fel achos o lygru golau mewn ardaloedd sydd â phoblogaeth niferus.



Mae goleuadau stryd wedi eu dylunio i gynorthwyo pobl sy'n defnyddio'r heolydd a'r llwybrau. Nid yw'n cael ei ddarparu fel modd o ddiogelu adeiladau neu i oleuo mynediad i eiddo preifat.

## Sut fyddent yn arbed ynni?

Mae'r goleuadau newydd Deuodau Allyrru Golau yn darparu lot mwy o werthu am arian na'r hen rhai sodiwm. Mae hyn hefyd yn cyfateb i'r lleihad yn y cyfanswm o ynni sydd angen er mwyn gweithredu pob golau.

## Sut fydd hyn yn gwneud Caerffili yn wyrddach?

Ynghyd â lleihau defnydd o ynni, mae rheoli'r goleuadau nad oes angen i'r amgylchedd yn ystod y nos yn well yn darparu buddion cadarnhaol ac yn cynorthwyo wrth gyfrannu at dargedau'r Llywodraeth Genedlaethol.

**Am fwy o wybodaeth ar oleuadau stryd, neu i adrodd am fater yn ymwneud â goleuadau stryd ym mwrdeistref sirol Caerffili, ewch i www.caerffili.gov.uk neu ffoniwch 01495 235789**

# Gwella sgiliau i oedolion

## Pontydd i Waith 2



Mae Pontydd i Waith 2 yn brosiect i drigolion sydd yn anweithredol yn economaidd neu'n ddi-waith tymor hir, sy'n byw mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf ac sydd yn 25 oed a hŷn.

Nod y cynllun yw helpu dros 500 o bobl ym mwrdeistref sirol Caerffili i gyflogaeth gynaliadwy erbyn Ionawr 2018 trwy helpu unigolion wella eu sgiliau yn y meysydd y mae galw amdanynt gan gyflogwyr.

Mae'n cynnig ystod eang o gyfleoedd gan gynnwys cymorth gyda chwilio am swyddi, ysgrifennu CV ayb yn ogystal â chyfres o gyrsiau galwedigaethau am ddim fel hylendid bwyd, cymorth cyntaf, sgiliau iechyd a diogelwch. Bydd cyfranogwyr hefyd yn cael eu cefnogi i ddatblygu sgiliau mwy trosglwyddadwy fel rhifedd, llythrennedd, TG a magu hyder.

Pontydd i Waith
Bridges into Work

## Sgiliau Gwaith Oedolion 2

Mae Sgiliau Gwaith Oedolion 2 yn brosiect ar gyfer trigolion bwrdeistref sirol Caerffili i gyd sy'n cael eu cyflogi neu sy'n hunangyflogedig ac yn 16 oed a hŷn. Nod y cynllun yw cynyddu faint o sgiliau trosglwyddadwy sydd gan bobl ar draws gweithlu'r fwrdeistref sirol, ac felly gwella'r cyfleoedd i weithwyr sgiliau is i gynnal cyflogaeth a chynyddu eu potensial i ennill cyflog.

Mae'r prosiect yn darparu mynediad at ystod eang o gyrsiau am ddim gan gynnwys sgiliau hanfodol fel llythrennedd a rhifedd, trwy at wasanaethau cwsmer, cyrsiau TG a mwy o gymwysterau ffurfiol. Bydd cyfranogwyr hefyd yn derbyn cymorth, cyngor ac arweiniad oddi wrth dîm o swyddogion cymorth cyflogaeth.

Working Skills for Adults
Sgiliau Gwaith i Oedolion

Cronfa Gymdeithasol Ewrop
European Social Fund

*Mae'r ddau brosiect wedi eu hariannu gan grant o Gronfa Gymdeithasol Ewrop.*

**Am fwy o wybodaeth, ffoniwch 01495 237 921 neu e-bostiwch: pontyddiwaith@caerffili.gov.uk neu sgiliaugwaithoedolion@caerffili.gov.uk**




**Mae ymgyrch 'Glanhau'r Gwanwyn' blynyddol Caerffili nôl ar gyfer 2016, ac mae'r cyngor yn galw ar grwpiau lleol, sefydliadau cymunedol ac unigolion i gymryd rhan.**

Bydd casglwyr sbwriel, prosiectau plannu a glanhau yn y gymuned ar y gweill ar draws bwrdeistref sirol Caerffili, wrth i gannoedd o wirfoddolwyr gymryd yr her o wneud eu cymuned leol yn fan hyd yn oed gwyrddach i fyw.

Fe wnaeth cannoedd o wirfoddolwyr ymuno gyda'r cyngor llynedd, ac erbyn diwedd yr ymgyrch, gwelwyd cymaint â 40 tunnell o wastraff sbwriel wedi ei gasglu. Dywedodd y Cyng. Nigel George, "Bob blwyddyn, mae Glanhau'r Gwanwyn yn parhau i dyfu - mae'n wych i weld fod cymaint o bobl yn gofalu am ymddangosiad eu cymunedau ac rydym yn benderfynol o helpu gwneud bwrdeistref sirol Caerffili yn fan gwyrddach i fyw, gweithio ac ymweld."

Dylai trigolion a hoffai gymryd rhan mewn glanhau cymunedol, neu a hoffai drefnu un eu hunain ffonio **01443 873 758** am fwy o wybodaeth. Gall y cyngor ddarparu casglwyr sbwriel a bagiau gwastraff i'w defnyddio yn ystod y glanhau, a threfnu i'r bagiau gwastraff i gael eu casglu.

Balchder Bro

# 2016 VELOTHON WALES

## Dydd Sul 22ain Mai Gwybodaeth Bwysig

**Bydd Velothon Cymru'n dychwelyd i ffyrdd De Cymru ar Ddydd Sul 22ain Mai. Bydd y digwyddiad unwaith eto'n croesawu hyd at 15,000 o seiclwyr hamddenol a rhai'n codi arian ar gyfer elusenau, yn ogystal â rhai o seiclwyr gorau'r byd.**

Bydd y llwybr 140km sydd yn gyfan gwbl ar hyd ffyrdd sydd wedi'u cau yn mynd â chyfranogwyr ar daith o ganol Caerdydd, drwy Gasnewydd, Caerllion, Brynbuga ac i fyny'r Tymbol, cyn mynd i'r de drwy Flaenafon, Pont-y-pŵl ac yn ôl i Gaerdydd ble fydd y seiclwyr yn croesi'r llinell derfyn. Bydd llawer yn casglu arian - rhagwelir y bydd dros £1 miliwn yn cael ei godi ar gyfer elusennau ac achosion da. Er mwyn cynnal y digwyddiad hwn sydd o safon fyd-eang, mae angen i'r trefnwyr ddiogelu'r llwybr. Mae hyn yn amddiffyn y cystadleuwyr a'r gwylwyr a bydd yn golygu cau llawer o ffyrdd a chyfyngiadau parcio mewn rhai ardaloedd.


**Nodyn pwysig: Ar adeg mynd i'r wasg, roedd y llwybr arfaethedig drwy fwrdeistref sirol Caerffili yn destun cyfnod o ymgynghori cyhoeddus. Bydd manylion llawn, gan gynnwys y map llwybr terfynol ac amseroedd cau ffyrdd manwl cywir yn cael eu dosbarthu gan y trefnwyr i'r trigolion a busnesau hynny sy'n debygol o gael eu heffeithio o leiaf chwe wythnos cyn y digwyddiad.**



Gofynnir i drigolion sydd eisoes yn ymwybodol o unrhyw beth a fydd yn eu heffeithio ar Ddydd Sul 22 ain Mai - megis digwyddiadau ffurfiol, cyfrifoldebau gofalwr neu deithio i fynd ar wyliau, i gysylltu â'r trefnwyr cyn gynted ag y bo modd gan y gallant ddarparu mwy o wybodaeth am y ffordd orau i lywio o gwmpas y ffyrdd fydd wedi eu cau. Mae'r trefnwyr yn ymddiheuro o flaen llaw am unrhyw anghyfleustra y gall hyn ei achosi ac maent yn sicrhau trigolion y byddent yn ceisio lleihau unrhyw darfu cymaint â phosibl.

**Diolch yn fawr iawn am eich cefnogaeth!** Os oes gennych gwestiwn penodol ynglŷn â'r llwybr ac am gau'r ffyrdd a ddilynnir, e-bostiwch: route@velothonwales.co.uk neu ffoniwch y llinell gymorth wedi'i neilltuo ar **0292 144 4880**

Am ragor o wybodaeth am y digwyddiad hwn, gan gynnwys gwybodaeth ynglŷn â chau ffyrdd neu i gofrestru i gymryd rhan yn y digwyddiad, ewch i **www.velothon-wales.co.uk**




2016 VELOTHON WALES 2016 VELOTHON WALES 2016 VELOTHON WALES

# Ydych chi wedi cofrestru?

**Anogir trigolion i sicrhau eu bod wedi cofrestru i bleidleisio yn yr etholiadau sydd i ddod.**


Ar Ddydd Iau 5ed Mai, bydd Cymru yn pleidleisio yn Etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol a'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu. Yn ogystal â methu a phleidleisio yn yr etholiadau a'r refferendwm sydd i ddod, gellir hefyd wrthod credyd i bobl nad ydynt ar y gofrestr etholiadol.

**Y dyddiad cau ar gyfer cofrestru yw Dydd Llun 18fed Ebrill 2016. A bydd y broses yn cymryd llai na phum munud i'w gwblhau ar-lein. I gofrestru i bleidleisio neu i ddiweddaru eich manylion ar y gofrestr etholiadol, ewch i www.gov.uk/cofrestru-i-bleidleisio Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â'r: Tîm Etholiadol ar 01443 864 204 neu ewch i www.caerffili.gov.uk**



# Digwyddiadau'r Gwanwyn

**Mae'r Gwanwyn wedi cyrraedd ym mwrdeistref sirol Caerffili, a gyda'r tymor daw rhaglen o ddigwyddiadau i drigolion ac ymwelwyr o bob oedran i'w mwynhau.**




Codwch Lyfryn

Yn gyntaf fydd digwyddiad **Sinema Awyr Agored Bargod** ar **Ddydd Gwener 18fed Mawrth** ym Maes Parcio Emporiwm Bargod, a fydd yn arddangos y ffilm teuluol boblogaidd 'The Good Dinosaur'.

Mae mynediad **AM DDIM** a does dim angen archebu tocynnau, felly dewch â phicnic, blancedi a chadeiriau er mwyn eistedd ac ymlacio wrth wylio'r ffilm. Rhaid i blant o dan 16 oed fod yng ngwmni oedolyn.

**Nesaf y daw Ffair Wanwyn Bargod, sy'n dychwelyd i ganol tref Bargod ar gyfer 2016. Bydd y digwyddiad poblogaidd sy'n cymryd lle ar Ddydd Sadwrn 9fed Ebrill rhwng 10am a 4pm, yn gweld canol y dref yn llawn gyda thua 20 stondin masnach yn gwerthu bwyd blasus a chrefftau unigryw.**

Bydd sefydliadau ac elusennau lleol hefyd wrth law gyda stondinau gwybodaeth ac yn arddangos eu nwyddau ar Sgwâr Hanbury a ger Lowry Plaza.

Y digwyddiad sy'n cwblhau rhaglen y gwanwyn yw **Gŵyl Fwyd Caerffili**, sydd yn digwydd ar **Ddydd Sadwrn 7fed Mai** rhwng 10am a 5pm.

Mae'r gwres wir yn cynyddu eleni, gyda detholiad o stondinau bwyd blasus yn llenwi canol tref Caerffili, gyda rhywbeth at ddant bawb. Bydd ymwelwyr yn ei gweld hi'n anodd osgoi'r temtasiwn o flasu'r holl ddanteithion sydd ar gael!



**Gellir dod o hyd i fanylion llawn y digwyddiadau hyn a llawer o ddigwyddiadau eraill dros yr wythnosau nesaf trwy fynd i**
**www.caerffili.gov.uk**
**neu drwy ffonio 029 20 88 00 11**

## Cynllunio ar gyfer argyfyngau

**Bob blwyddyn, mae bron i un allan o bob pump o fusnesau yn dioddef aflonyddwch – ac mae o leiaf 80% o'r rheini a effeithir gan ddigwyddiad mawr ac nad oes Cynllun Parhad Busnes mewn lle naill ai byth yn ailagor neu'n cau o fewn 18 mis.**

Mae Cynllun Parhad Busnes mor bwysig i fusnesau bach ag ydyw ar gyfer sefydliadau mawr, a gall cynllun parhad busnes wneud y gwahaniaeth rhwng cadw a cholli busnes. Bydd cael cynllun sydd wedi ei drio a'i brofi yn helpu gwneud yn siwr fod busnes yn profi'r amhariad lleiaf posibl mewn argyfwng neu sefyllfa difrifol. Er na all y cyngor baratoi cynlluniau i berchnogion busnes, efallai bydd angen i berchnogion busnes ystyried cyngor cyffredinol, gan gynnwys ffurflen hunanasesiad 10 munud newydd sy'n uwcholeuo materion i helpu paratoi ar gyfer argyfwng, ar gael ar wefan y cyngor o dan is-adran 'Busnes' ar **www.caerffili.gov.uk**

### Paratoi Ymlaen Llaw Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant

**Mae tîm Gwasanaethau Cymdeithasol y cyngor yn gwneud newidiadau i'r ffordd y maent yn gweithio cyn gweithrediad y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2015, sy'n dod i rym ym mis Ebrill 2016.**

Bydd y Ddeddf yn newid y ffordd y mae gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol, y GIG a gwasanaethau gofal eraill yn gweithio i help a rhoi cymorth i bobl, drwy ganolbwyntio ar ataliad ac ymyrraeth gynnar. Bydd y Ddeddf newydd yn trawsnewid y ffordd y mae gwasanaethau cymdeithasol yn cael eu darparu, gan hybu annibyniaeth pobl a rhoi llais cryfach iddynt. Bydd hyn yn cael ei wneud trwy weithio ynghyd er mwyn edrych ar yr hyn sy'n bwysig i'r unigolion, gan ganolbwyntio ar eu cryfderau, yn ogystal ag unrhyw adnoddau arall gall fod ganddynt gan gynnwys cymorth gan deulu/ffrindiau a chael mynediad ar ddeunyddiau cymunedol lleol. Bydd y newidiadau hyn yn caniatáu gwasanaethau cymdeithasol i gael mynediad at ac addasu'r gofal a'r gwasanaethau maent yn eu darparu wrth i anghenion bob person newid, yn hytrach na darparu gofal sydd wedi'i seilio ar un asesiad caeedig sengl. Meddai'r Cyng. Robin Woodyatt, "Bydd y Ddeddf newydd hon yn caniatáu i weithwyr cymdeithasol ganolbwyntio ar ddarparu gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn fwy, gyda chanolbwynt ar roi mwy o ryddid i bobl i benderfynu pa wasanaethau sydd angen arnynt, wrth sicrhau ein bod ni yn parhau i gynnig gwasanaethau o'r safon uchaf ledled y fwrdeistref sirol."



**Am fwy o wybodaeth ar y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2015, ewch i www.cymru.gov.uk**

## Gwybod eich hawliau

**Mae tîm Safonau Masnach y cyngor yn awyddus i atgoffa trigolion o rhai o'r rheolau newydd, a gafodd eu cyflwyno'n genedlaethol ar ddiwedd 2015, sydd nawr yn gwneud e'n haws i ddatrys dadleuon rhwng cwsmeriaid a masnachwyr.**




Mae'r Ddeddf Hawliau Defnyddwyr newydd yn gymwys i'r holl fanwerthwyr a gwerthwyr masnach nwyddau a gwasanaethau - naill ai mewn siop, ar-lein o gartref rhywun neu mewn marchnad ddydd Sul. Bwriad y Ddeddf yw gwneud y gyfraith yn gliriach a haws i'w ddeall, sy'n golygu y gall ddefnyddwyr brynu a gall busnesau werthu nhw yn hyderus.

### Mae'r Ddeddf Hawliau Defnyddwyr newydd hon yn symleiddio ar gyfer cwsmeriaid a busnesau:

- Beth ddylai ddigwydd pan fydd nwyddau yn ddiffygiol
- Beth ddylai ddigwydd pan fydd cynnwys digidol yn ddiffygiol
- Sut dylai gwasanaethau sy'n cydweddu â beth sydd wedi cael ei gytuno, a beth ddylai ddigwydd pan nad ydynt, neu pan na ddarperir gyda sgil a gofal rhesymol
- Termau mewn cytundeb annheg

Roedd y rhan fwyaf o'r newidiadau hyn yn ddiweddariadau pwysig i ddeddfau presennol. Serch hynny, cafodd dwy ardal bwysig newydd o ddeddfau eu cyflwyno hefyd. Am y tro cyntaf, mae hawliau ar gynnwys digidol wedi cael eu gosod. Mae'r Ddeddf yn rhoi hawl clir i gwsmeriaid i atgyweiriadau neu newid cynnwys digidol diffygiol fel ffilmiau a gemau ar-lein, lawrlwytho cerddoriaeth ac e-lyfrau. Mae nawr rheoliadau newydd a chlir hefyd ar beth ddylai ddigwydd os na ddarperir gwasanaeth gyda gofal a sgil rhesymol, neu fel y cytunwyd. Er enghraifft, rhaid i'r busnes a ddarparodd y gwasanaeth gysoni gyda beth gafodd ei gytuno gyda'r cwsmer neu, os nad yw hyn yn ymarferol, rhaid rhoi arian nôl.

**Am gyngor defnyddiol cychwynnol, mae Safonau Masnach yn gweithio mewn partneriaeth gyda'r Llinell Gymorth Gwasanaethau Defnyddwyr Cyngor ar Bopeth – gallwch gysylltu â'r tîm drwy ffonio 03454 040506**

# Ymlaen ar frys ar gyfer prosiectau ysgol flaenllaw

**Mae cynlluniau i ddatblygu ysgol newydd sbon i ddisgyblion o Ysgol Gynradd Abertyswg ac Ysgol Gynradd Pontlotyn ar safle Ysgol Gyfun Rhymni yn dod yn ei flaen, gyda chaniatâd cynllunio a ganiatawyd yn ddiwedd ar gyfer y datblygiad.**

Bydd y prosiect a ddyluniwyd yn fewnol gan swyddogion y cyngor, yn gweld y datblygiad o Ysgol Gynradd, Meithrinfa ac uned Dechrau'n Deg un llawr o'r radd flaenaf, wedi'u hadeiladu ar y maes chwaraeon gyferbyn ag Ysgol Gyfun Rhymni.

Bydd y prosiect yn gweld mannau addysgu a dysgu bywiog a modern, yn fewnol ac yn allanol, er mwyn buddio disgyblion o'r ysgolion cynradd a staff dysgu hefyd, gyda chynlluniau ar gyfer cae chwaraeon newydd ar gyfer yr ysgol gyfun yn ogystal â chae chwaraeon newydd ar gyfer yr ysgol gynradd hefyd.

Bydd yr ysgol hefyd yn buddio o ardaloedd glaswellt allanol ar gyfer fabanod a phlant iau gydag offer chwarae, parth grafelog gan gynnwys ardal blannu ar gyfer clwb garddio ac amffitheatr ar gyfer digwyddiadau a dysgu awyr agored. Mae elfen adeiladu'r prosiect allan ar gyfer tendro ar hyn o bryd – a gobeithir gall y gweithfeydd adeiladu gychwyn ar y safle ym mis Mai eleni, gyda dyddiad cwblhau arfaethedig o fis Awst 2017.

Mae gwaith hefyd yn dod yn ei flaen yn gyflym iawn ar ddatblygiad Ysgol Uwchradd Islwyn yn Oakdale, gyda ffrâm yr adeilad nawr wedi ei gwblhau a'r to yn mynd i gael ei osod cyn hir. Unwaith y bydd wedi'i gwblhau, bydd y campws ysgol yn gartref i ddisgyblion o Ysgolion Cyfun Oakdale a Phontllan-fraith. Bydd y datblygiad yn gweld ystod o fannau dysgu, gan gynnwys labordai gwyddoniaeth gelf a thechnoleg o'r radd flaenaf, yn ogystal â chae 3G, trac athletau 200 metr ac ardal gemau aml-ddefnydd.




Ysgol Gynradd Abertyswg a Phontlotyn

Mae gan yr ysgol wefan ddefnyddiol, sy'n cynnwys diweddariadau rheolaidd ar y datblygiad yn ogystal â chamera ffotograffiaeth oediog o safle Ysgol Uwchradd Islwyn - www.islwynhigh.org. Disgwylir y bydd yr ysgol yn agor yn haf 2017 yn barod ar gyfer y flwyddyn ysgol newydd. Yn olaf, mae'r gweithfeydd ar y campws cyfrwng Cymraeg Y Gwyndy yng Nghaerffili bron a'u cwblhau, ar ôl i Brif Weinidog Cymru agor y datblygiad yn swyddogol ym mis Rhagfyr.

Bydd datblygiad y campws trawiadol, sy'n cynnwys Ysgol Gynradd Gymraeg Caerffili a rhan o Ysgol Gyfun Cwm Rhymni, yn cyrraedd ei gyfnod olaf cyn hir, gyda chae chwaraeon ffug 3G newydd ac ardal gemau aml-ddefnydd yn cael eu hadeiladu ar y safle. Mae'r prosiectau uchelgeisiol yn rhan o raglen Ysgolion 21ain Ganrif, a arweinir ledled Cymru gan Lywodraeth Cymru ac wedi bod yn bosibl diolch i ariannu cyfatebol gan Lywodraeth Cymru.



Cynnydd ar safle Ysgol Uwchradd Islwyn.



Campws Y Gwyndy

## Diwylliant Tsieina yn ymuno â'r cwricwlwm yn Ysgol Gyfun Cwm Rhymni

**Ysgol Gyfun Cwm Rhymni yw'r ysgol gyntaf ym mwrdeistref sirol Caerffili i ennill statws mawreddog 'Ystafell Ddosbarth Confucius'.**

Mae Ystafelloedd Ddosbarth Confucius yn ysgolion sydd wedi gwreiddio materion Tsieneaidd yn gadarn yn eu cwricwlwm eu hunain ac yn gallu rhoi cyngor, cymorth a dosbarthiadau blasu i ysgolion lleol eraill. Dechreuodd yr ysgol ei daith i ddod yn ysgol Ystafell Ddosbarth Confucius bum mlynedd yn ôl, ar ôl dysgu am fanteision addysgu Mandarin i ddisgyblion yn ystod cyflwyniad gan y Sefydliad Confucius a'r Cyngor Prydeinig ar gwrs Dysgu Byd-eang. Ers hynny, mae'r ysgol wedi llwyddo i sicrhau cyllid bob blwyddyn ar gyfer Cynorthwyydd Iaith Tsieinëeg i ddysgu Mandarin a diwylliant Tsieina i fyfyrwyr, ac ar gyfer ystafell ddosbarth Confucius newydd.

Mae gwersi yn cynnwys addysgu disgyblion sut i siarad Mandarin, tynnu caligraffi Tsieineaidd, Tai Chi, Kung Fu Tseineaidd a gweithgareddau diwylliannol Tsieineaidd. Mae'r Cynorthwyydd Iaith Tsieineaidd hefyd yn tîm-ddysgu gydag athrawon eraill yn yr ysgol er mwyn rhoi persbectif Tsieneaidd ar bynciau fel Coginio, Daearyddiaeth, Mathemateg a mwy.



Mae disgyblion yng Nghwm Rhymni hefyd yn cael y cyfle i gymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol megis dosbarthiadau amser cinio, cystadlaethau siarad Mandarin yn Llundain a'r cyfle i gwblhau cymwysterau mewn Mandarin. Mae'r ysgol yn gobeithio dod yn ganolbwynt fel bod ysgolion lleol eraill yn gallu cymryd rhan yn y gwersi hyn a hefyd wedi dechrau rhoi gwersi Mandarin i ysgolion cynradd lleol sy'n bwydo Ysgol Gyfun Cwm Rhymni.

Meddai Rachel Williams, Rheolwraig Brosiect Ysgolion Cymru Tsieina: "Mae wedi bod yn daith hir i Ysgol Gyfun Cwm Rhymni i gyrraedd y pwynt hwn, mae dod yn ystafell ddosbarth Confucius yn broses hir ond mae wedi dod yn bosibl oherwydd ymroddiad, gwaith caled a phenderfyniad y staff a'u hymrwymiad parhaus i'w disgyblion i ddysgu Mandarin a diwylliant Tsieina."

## Safonau'r GYMRAEG

**O ddiwedd mis Mawrth, bydd deddfwriaeth newydd ynghylch darpariaeth gwasanaethau trwy'r Gymraeg i aelodau'r cyhoedd yn dod i rym.**

Bydd y ddeddfwriaeth hon yn gweld 176 o Safonau gwahanol yn eu lle, sy'n manylu ar sut disgwylir i sefydliadau i ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwahanol sefyllfaoedd, sut na ddylai'r Gymraeg gael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac i hyrwyddo a hwyluso defnydd y Gymraeg.

Mae'r cyngor wedi gweithio gyda Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg er mwyn sicrhau bod y safonau a osodir yn yr ardal hon yn rhesymol, yn gymesur ac yn addas i'r pwrpas. O fis Ebrill, bydd mwy o wybodaeth ar gael ar **www.caerffili.gov.uk**

# NODYN ATGOFFA AILGYLCHU

**Mae'r cyngor yn awyddus i atgoffa trigolion o beth gall ac na all gael eu rhoi yn y bin ailgylchu brown gyda'u hymgyrch '7 pechod biniau ailgylchu'**

Tra bod y rhan fwyaf o drigolion yn ailgylchu - ac am nifer o flynyddoedd, mae Caerffili wedi bod ymhlith yr ardaloedd cyngor sy'n perffomio gorau yng Nghymru ar gyfer ailgylchu – mae'r broblem yn parhau gyda deunyddiau anghywir yn cael eu rhoi mewn rhai biniau ailgylchu.

Y '7 pechod biniau ailgylchu' yw'r saith peth sy'n achosi'r mwyaf o broblemau oherwydd bod trigolion yn rhoi'r eitemau anghywir yn eu biniau ailgylchu. Yn ystod mis Awst a Medi'r llynedd, fe wnaeth pob cartref dderbyn ymweliad gan swyddog hyfforddedig sy'n cynrychioli'r cyngor fel rhan o'r ymgyrch, ac fe wnaeth pob cartref hefyd dderbyn taflen yn dangos beth gall ac na all gael ei ailgylchu.

Dywedodd y Cyng. Nigel George, "Tra bod y rhan fwyaf o'n trigolion yn ailgylchu, mae angen i ni gydnabod fel cymuned, mae angen i ni wneud hyd yn oed yn fwy er mwyn gwneud yn siŵr ein bod yn parhau i gwrdd â thargedau ailgylchu uchelgeisiol a osodwyd gan Lywodraeth Cymru. Os bydd trigolion yn sicrhau eu bod ond yn rhoi'r eitemau ailgylchu cywir yn eu bin ailgylchu, bydd hyn yn gwneud gwahaniaeth mawr i'n helpu cyflawni'r targedau hynny."

Anogir trigolion hefyd i gymryd rhan yng nghynllun ailgylchu gwastraff bwyd y cyngor. Ar hyn o bryd mae llai na 50% o drigolion yn defnyddio'r gwasanaeth hwn, sy'n gadael miloedd o dunellau o wastraff bwyd yn cael eu gwaredu yn y bin gwastraff cyffredinol mawr gwyrdd.

**Dyma nodyn atgoffa defnyddiol y gellir torri allan a'i gadw . . .**

## A YW EICH BIN CHI'N PECHU?




**Peidiwch â gwastraffu eich ailgylchu!**

Oeddech chi'n gwybod bod rhoi'r eitemau anghywir yn eich bin ailgylchu brown yn lleihau faint o ddeunydd y gellir ei ailgylchu, sy'n costio arian i bob un ohonom?

Mae angen eich help chi arnom i wella ansawdd ein hailgylchu trwy sicrhau nad oes unrhyw rai o'r 7 pechod biniau isod yn cael eu rhoi yn eich bin ailgylchu gwastraff y cartref!

### Y 7 PECHOD BINIAU AILGYLCHU

**CEWYNNAU**
Dylech eu rhoi yn eich bin sbwriel.

**BAW ANIFEILIAID ANWES**
Dylech ei roi yn eich bin sbwriel.

**DYFEISIAU TRYDANOL**
Ewch â nhw i'ch canolfan ailgylchu.

**OEDDECH CHI'N GWYBOD?**
Gall 75% o'ch sbwriel gael ei ailgylchu

**GWASTRAFF BWYD**
Ailgylchwch unrhyw fwyd yn eich cadi bwyd ar wahân (tynnwch y deunydd pacio'n gyntaf ac ailgylchwch gymaint â phosibl o'r cynhwysydd bwyd).

**PLASTIGION PENODOL**
Rhowch ffilm blastig yn eich bin gwastraff. Ewch a phlastig caled (teganau, cas CD, potiau blodau ag ati) i'r ganolfan ailgychu.

**DEUNYDD PACIO PENODOL**
Pacedi creision/codenni bwyd anifeiliaid anwes/hambyrddau polystyren/deunydd pacio polystyren oddi ar nwyddau trydanol. Dylech roi'r rhain yn eich bin sbwriel.

**TECSTILAU**
Ewch â nhw i'ch canolfan ailgylchu neu siop elusen.

recycle for Caerphilly
ailgylchu dros Gaerffili

**Am fwy o wybodaeth ar beth gall ac na all gael ei ailgylchu, ewch i www.caerffili.gov.uk neu ffoniwch 01443 866533**

# Ymgynghoriad Rheoli Cŵn

**Mae'r cyngor yn bwriadu ymgynghori â thrigolion ar gyflwyno Gorchymyn Amddiffyn Mannau Cyhoeddus (GAMC) sy'n ymwneud â rheoli cŵn.**

Gall Gorchmynion Amddiffyn Mannau Cyhoeddus cael eu defnyddio i reoleiddio gweithgareddau mewn mannau cyhoeddus penodol, er mwyn sicrhau bod y mwyafrif sy'n ufudd i'r gyfraith yn gallu defnyddio a mwynhau mannau cyhoeddus, yn ddiogel rhag ymddygiad gwrth-gymdeithasol.

**Bydd yr ymgynghoriad, sy'n cychwyn ar 1af Ebrill ac yn rhedeg am 12 wythnos, yn ceisio barn trigolion ar:**

- Eithrio cŵn rhag bob ardal chwarae caeëdig i blant
- Gofynion ychwanegol ar gyfer rhoi cŵn ar dennyn ar bob adeg mewn rhai ardaloedd
- Mynnu bod cŵn yn cael eu cadw ar dennyn mewn gerddi coffa caeëdig
- Mynnu bod perchnogion cŵn yn cael gwared ar faw ci mewn mannau cyhoeddus
- Mynnu bod perchnogion cŵn yn cario cynhwysydd priodol ar gyfer ymdrin â'r gwastraff y mae eu cŵn yn cynhyrchu (hynny yw, bod modd iddynt godi baw eu cŵn ar bob adeg)
- Mynnu bod perchnogion cŵn yn rhoi eu cŵn ar dennyn pan fydd swyddog awdurdodedig yn eu cyfarwyddo i'w gwneud ar unrhyw dir cyhoeddus lle ystyrir nad yw'r ci o dan reolaeth neu'n achosi niwed neu ofid er mwyn atal niwsans
- Eithrio cŵn rhag bob cae chwaraeon/chwarae wedi'i marcio sy'n eiddo i'r cyngor



**I roi eich barn ar y cynigion hyn, ewch i www.caerffili.gov.uk neu ffoniwch 01495 235054 i ofyn am gopi papur o'r arolwg.**

# Gweithredu ar y cyd yn arwain at denantiaid yn cael eu troi allan

**Mae teulu o bump wedi eu cael eu hunain wedi eu troi allan o'u tŷ cyngor yn ddiweddar, yn dilyn catalog o ddigwyddiadau gwrth-gymdeithasol.**

Yn ystod eu tenantiaeth o dair blynedd, derbyniwyd cwynion niferus ynglŷn ag ymddygiad annerbyniol y rhieni yn y tŷ. Roedd digwyddiadau'n cynnwys dadleuon meddw yn hwyr yn y nos, cerddoriaeth rhy uchel yn cael ei chwarae bob awr o'r nos, brawychu cymdogion, defnydd o iaith ddifrïol ac ymddygiad bygythiol.

Gwnaed amryw o atgyfeiriadau yn ystod y cyfnod hwn mewn ymgais i weithio gyda'r teulu i newid eu patrymau ymddygiad. Yn dilyn ymchwiliadau ar y cyd â Heddlu Gwent, cymerwyd camau ffurfiol yn erbyn y tad a gwnaed y ddau riant yn destun amodau Hysbysiad Atal Sŵn. Gwnaed cais llwyddiannus hefyd am Orchymyn Adennill Meddiant Ataliedig, fel y gall swyddogion barhau i weithio gyda'r teulu a cheisio rhoi cymorth iddynt i gynnal eu tenantiaeth.




Fodd bynnag, o fewn chwe wythnos i'r Gorchymyn gael ei ganiatáu, derbyniwyd cwynion pellach, gyda thystiolaeth sain yn dal y defnydd o iaith dramgwyddus, bygythion a cherddoriaeth rhy uchel yn cael ei chwarae gan y ddau riant. Felly gwnaed cais am Warant Troi Allan, a chaniatawyd hyn ym mis Rhagfyr y llynedd.

Yn dilyn y troi allan, dywedodd cymdogion sut mae eu bywydau wedi eu gweddnewid yn llwyr er y gwell, a sut maent yn awr yn teimlo y gallent gysgu'n dda yn y nos, heb ofni beth all ddigwydd nesaf gyda'u cymdogion.

Dywedodd y Cyng. David Poole, "Ni ddylai ein preswylwyr orfod byw mewn sefyllfa lle mae eu hansawdd bywyd yn cael ei effeithio er gwaeth gan berson arall, a byddwn yn parhau i ddefnyddio unrhyw bwerau sydd gennym i sicrhau bod hyn yn dal yn wir."

**Er mwyn rhoi gwybod am fater o'r natur hon, cysylltwch â'ch swyddfa dai lleol neu ewch i www.caerffili.gov.uk**